

## EVANS, DAVID (1874 - 1948), cerddor

**Enw:** David Evans  
**Dyddiad geni:** 1874  
**Dyddiad marw:** 1948  
**Priod:** Mary Evans (née Thomas)  
**Rhiant:** Sarah Evans  
**Rhiant:** Morgan Evans  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cerddor  
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth  
**Awdur:** David Ewart Parry Williams

Ganwyd 6 Chwefror 1874 yn Resolfen, Sir Forgannwg, mab Morgan a Sarah Evans. Cafodd ei addysg yn Arnold College, Abertawe, a choleg y Brifysgol, Caerdydd, a dilyn [Dr. Joseph Parry](#), yn 1903, yn bennaeth adran cerddoriaeth yn y coleg (a chael y gadair yn 1908). Daeth i amlygrwydd yn gynnar yng Nghymru fel cyfansoddwr - gyda'r gweithiau hyn: - ' Llawenhewch yn yr Ior ' (oratorio fechan, a berfformiwyd yn Ffestifal Caernarfon, 1906), ' The Coming of Arthur ' (cantata ddramatig), a berfformiwyd yn y Triennial Festival yng Nghaerdydd, 1907), ' Deffro! Mae'n Ddydd ' (balad gorawl), a ' Carmen ' (gosodiad o 'awdl' Ladin); canwyd ' Deffro! Mae'n Ddydd ' a ' Carmen ' yn seremoni agor adeiladau newydd coleg Caerdydd, 1909. Cyfansoddwyd ei gerddoriaeth achlysurol (sydd heb ei gyhoeddi) i ' Alcestis ' ar gyfer perfformiad o'r ddrama Roeg honno yng Nghaerdydd yn 1928, a'r gantata fechan, ' Gloria ', ar gyfer dathlu daucanmlwyddiant Methodistiaeth yng Nghymru.

Bu dylanwad Dr. David Evans ar gerdd-oriaeth Cymru yn ddwfn ac yn barhaol. Yr oedd ei lwyddiant eithriadol fel athro mewn coleg yn cydreded â theyrngarwch i ddau sefydliad cerddorol Cymreig a thraddodiadol - y gymanfa ganu a'r eisteddfod. Bu'n ddiwyd ac yn egniol yn ceisio codi safonau cerddoriaeth trwy'r wlad a bu i'w *Moliant Cenedl*, casgliad ysgolheigaidd o'r tonau gorau, ddylanwad ardderchog ar y pryd. Dangosodd hefyd pan oedd yn golygu *Y Cerddor* (1916-31) ei fod yn llwyr ddeall sefyllfa cerddoriaeth yng Nghymru. Cefnogai hyrwyddo cerddoriaeth gerddorfaol ac awgrymodd hefyd lawer o welliannau yngl n â cherddoriaeth yr eisteddfod. Cydnabyddid yn bur gyffredinol ei fod yn arbenigwr mewn cerddoriaeth grefyddol a cheir nifer o'i donau yn y llyfrau emynau Saesneg gorau. Efe oedd cadeirydd y pwyllgor o arbenigwyr a oedd yn gyfrifol am y *Revised Church Hymnary* a golygydd *The Children's Hymnbook* (Blackie); yr oedd yn gyfrifol hefyd i raddau helaeth am olygu *Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid Calфинаidd a'r Wesleyaid*. Ymddangosodd rhai o'i gynhyrchion bach o dan y ffugenw 'Edward Arthur'.

Priododd 1899, Mary Thomas, Plas-y-coed, Treforus, a bu iddynt ddau fab. Bu farw 17 Mai 1948.

### Awdur

Yr Athro David Ewart Parry Williams, (1900 - 1996)

### Ffynonellau

Adnabyddiaeth bersonol

*Who's who?*

*Who was who?*, 1941-50

### Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [David Evans \(Musician\) Papers](#)

VIAF: [2014489](#)

Wikidata: [Q5233461](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

